cyswllt teulu
i deuluoedd gyda phlant anabl
ymgorfforir
Ymddiriedolaeth Lady Hoare

YSGOL PAN YDYCH AR OLWYNION

Pobl Ifanc sy'n Defnyddio Cadair Olwyn yng Nghymru: Ciplun o Heriau a Phrofiadau mewn Addysg

Ysgrifennwyd gan Martin Davies, Swyddog Prosiect Pediatrig, Cyswllt Teulu Cymru

Fe ellir cael rhagor o gopïau oddi wrth:
Cyswllt Teulu Cymru
33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB

Ffôn *029 2039 6624*
E-bost *martin.davies@cafamily.org.uk*
Gwefan *www.cafamily.org.uk*

Elusen Gofrestredig Rhif 284912

Rhagymadrodd

Yn dilyn ymgyrch ar y cyd ynglŷn â gwasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod 2006, fe ofynnwyd i Barnardo's Cymru, Cyswllt Teulu Cymru a Whizz-Kidz gan Jane Davidson, cyn-Weinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru, edrych ar sut y gall defnyddio cadair olwyn effeithio ar addysg plentyn neu berson ifanc. Fe wnaethom ofyn i rai o'r rhieni a phobl ifanc yr ydym yn gweithio â hwynt i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio cadeiriau olwyn yn lleoliad yr ysgol, a'r adroddiad byr hwn yw'r canlyniad.

Themâu Allweddol

Y mae'r themâu sydd wedi ymddangos yn pwyntio i'r ffaith bod rhai pobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn yn colli cyfleoedd y mae'r rhan fwyaf o blant yn eu cymryd yn ganiataol.

- **Y mae llawer o blant a phobl ifanc yn wynebu anawsterau ac oediadau i gael y gadair olwyn briodol. Pan nad oes gennych y gadair olwyn briodol, y mae bywyd ysgol yn llawer caletach.**

- **Pan gaiff plentyn ei asesu am gadair olwyn, nid yw gweithgareddau ysgol yn aml yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Yn yr achos hwn, er y gall y gadair olwyn ddiwallu'r angen clinigol, fe fydd yn methu â chynnal anghenion cymdeithasol ac addysgol plentyn sy'n tyfu. Fe fyddai cyfarpar symudedd wedi'i addasu yn eu galluogi hwynt i ddefnyddio cyfleusterau presennol yr ysgol.**

- **Y mae yna dystiolaeth bod rhai disgyblion yn wynebu anawsterau oherwydd nad oes ganddynt y defnydd o'r cyfarpar priodol megis desgiau sydd o'r uchder cywir.**

- **Hyd yn oed pan fo plentyn fel arfer yn gallu mynd i bob rhan o adeilad yr ysgol, y mae yna yn aml lifftiau nad ydynt yn gweithio neu sydd wedi'u fandaleiddio, lifftiau cadair nad oeddynt yn gweithio a disgyblion yn gorfod mynd ar hyd ffyrdd eraill sy'n golygu mynd allan i'r awyr agored ym mhob tywydd neu ddefnyddio gwahanol ddrws i fynd i mewn i'r ysgol.**

- **Fe all plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn wynebu anawsterau gyda gweithgareddau ysgol megis tripiau a gwibdeithiau, amser chwarae, prydau bwyd ysgol a nofio.**

- **Fe all pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd fod yn ddyrys o ganlyniad i oediadau gydag addasu'r ysgol a gosod cyfarpar arbennig, a nodwyd fel achosion cyffredin dros bryderu. Yn sylfaenol, y ffaith fod ar blentyn neu berson ifanc angen defnyddio cadair olwyn yn aml yw'r ystyriaeth bennaf wrth ddewis pa ysgol y byddant yn mynychu.**

- **Os ydym yn derbyn nad unig ddiben ysgol yw ennill cymwysterau academaidd ond hefyd ei bod yn ymwneud â chyfeillgarwch a phrofiadau cymdeithasol; i lawer o blant a phobl ifanc, un o'r effeithiau mwyaf pryderus o ddefnyddio cadair olwyn yn yr ysgol yw y gall yr holl themâu allweddol a restrir arwain at eu gwahanu, er nad yn fwriadol, oddi wrth eu cyfeillion a disgyblion yn eu dosbarth. Fe all hyn yn ei dro gael effaith negyddol ar hyder a hunan-barch plentyn. Fe all hefyd ei gwneud hi'n galetach iddynt integreiddio'n llawn yn y gymdeithas yn y cyfnod hwy.**

Fe awgrymwyd teitl yr adroddiad hwn gan Sasha, person ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn a adawodd yr ysgol yn 2006. Yn ei hatgofion trylwyr iawn, y mae hi'n cyffwrdd â bron bob mater arall a godwyd gan y rhieni a phobl ifanc yr ydym wedi siarad â hwynt, ac felly y mae'i hanes wedi'i ddefnyddio i ddechrau'r adroddiad.

'Rwyf yn 18 mlwydd oed ac y mae arnaf barlys yr ymennydd sy'n amharu ar fy nghoesau ac ar fy mraich dde sydd yn fy ngwneud i'n gyfan gwbl ddibynnol ar gadair olwyn â pheiriant er mwyn gallu symud. Fe ddefnyddiaf gadair olwyn dan do—awyr agored 'rwyf yn ei defnyddio gartref ac yn y gwaith, er ei bod wedi bod yn anhygoel o anodd cael y gadair hon. Fe wnaeth fy nghlun ymgwympo yn ystod fy ail flwyddyn o'r ysgol uwchradd ac fe olygai mai cadair olwyn drydan oedd fy unig ddewis. Cyn hyn, yr oedd gennyf fwy o symudedd ac fe ddefnyddiwn gyfuniad o ffrâm gerdded a chadair olwyn llaw yr oedd fy nghyfeillion yn fy ngwthio o amgylch ynddi ond pan ddaeth hi'n amser imi gael cadair drydan, nid oedd yna'r un ar gael a bu'n rhaid i fy nheulu godi'r arian yn annibynnol ar gyfer cadair drydan, gan fod yna angen dybryd imi gael un. Ychydig bach yn ddiweddarach, fe roddwyd un imi gan y llywodraeth, sef yr un a ddefnyddiaf yn awr ond yr oedd yn rhaid inni er hynny ariannu fy nghadair wreiddiol ein hunain, ac y mae'r rhestrau aros am rai meintiau mwy, rhai wedi'u huwchraddio, ac yn y blaen, ar y [gadair] a ddarparwyd gan y llywodraeth yn afresymol.

Fe adewais yr ysgol ar ôl fy holl arholiadau Safon Uwch yr haf diwethaf ac fe hoffwn rannu fy mhrofiadau personol gyda chi am fy amser yno.

O fod mewn cadair olwyn, 'rydych yn sylweddoli pethau nad ydych erioed byth wedi meddwl amdanynt o'r blaen. Mae'r byd arall hwn i gyd sy'n llawn o amheuon, rhagofalon a rhwystrau yn agored ichi ac yn esgor arnoch yn gorfod cynllunio bron popeth yr ydych yn ei wneud, yn aml yn wynebu cyfyngiadau di-ben-draw, ac nid oedd addysg yn eithriad i'r rheol hon. Fodd bynnag, fe wnaf eich sicrhau chi mai er y gellid gweld fy mhrofiadau drwy addysg fel 'llawn her', nid yw hynny'n golygu'u bod wedi'u trwytho'n gyfan gwbl mewn trallod. Mewn gwirionedd, pe na bae am y cymorth oddi wrth y Cynorthwywyr Cymorth Dysgu yn fy ysgol, fe allaf ddweud yn onest y byddwn wedi rhoi'r ffidil yn y to amser maith yn ôl. 'R oedd fy ysgol wedi'i integreiddio gyda chyfuniad o ddosbarthiadau prif ffrwd a chanolfan cymorth arbenigol a oedd yn darparu ar gyfer ystod eang o namau ac anableddau tra ei fod yn dal i ymgorffori rhyddid cyfle cyfartal ar gyfer symbyliad deallusol i bawb sy'n ei ddewis. Mae hyn yn ymddangos yn wynfydedig ond gyda phob syniad da y daw diffygion ac yr oedd y gyfundrefn ymhell o fod yn berffaith.

I gyrraedd dosbarthiadau yn ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Mathemateg a'r Dyniaethau, fe'ch gorfodwyd i ddefnyddio lifft, gan fod yr ysgol wedi'i rhannu'n 'adrannau', a oedd yn ymestyn ar draws dau lawr. 'R oedd gwahanol ddosbarthiadau yn golygu teithio i wahanol adeiladau a defnyddio gwahanol lifftiau. 'R oedd y lifftiau'n hen iawn ac yn agored iawn i fandaliaeth, yn aml yn torri o ganlyniad, gan rwystro'r defnyddiwr rhag cael gwir addysg yn yr ystyr y byddech, pa bryd bynnag y byddai'r lifftiau'n torri, yn mynd i'r ganolfan gymorth a chwblhau'ch astudiaethau yno. 'R oedd hyn yn golygu eich bod yn aml yn dioddef yr anffawd sylweddol o gael eich gwahanu oddi wrth eich cyd-ddisgyblion a methu ag elwa o gael eich trwytho yn yr amgylchedd dysgu priodol, ac weithiau'n arwain at fwy o feichiau gwaith a phwysau oherwydd fe allech fod wedi colli eglurhad pwysig ar dechneg arholiad, ac yn y blaen. Hefyd, mae ystafell

gyffredin y 6ed flwyddyn a'r mwyafrif o ddosbarthiadau cofrestru hefyd yn cael eu cynnal i fyny'r grisiau, a oedd yn broblem ENFAWR.

I mi, fe wneuthum deimlo llawer iawn o wrthodiad cymdeithasol. 'Rwyf yn berson ifanc hyderus sy'n ffynnu ar ryngweithio cymdeithasol ond os oedd y lifft wedi torri fe fyddwn yn aml yn cael fy anghofio gan fy nghyfeillion, fe fyddai'n ymddangos, gan dreulio'r rhan fwyaf o'r amseroedd egwyl ac amseroedd cinio i lawr yn y Ganolfan Gymorth. Fel yr oedd ffawd yn mynnu, 'r oedd ar y mwyafrif o'n cyfeillion ofn lifftiau, gan olygu y byddai'n rhaid imi fynd yno ar fy mhen fy hun. Er yr oeddwn yn eithriadol o agos at y Cynorthwywyr Cymorth Dysgu i gyd ac yn dal i fod hyd y dydd heddiw, ac yr oeddynt yn falch o fynd gyda mi, y pwynt yr wyf yn ei wneud yw un o annibyniaeth a'r hyder i wneud hynny.
'R oedd mynediad hefyd yn enghraifft hynod o flaenllaw o gyfyngiad imi. NID oes gennym ddrysau awtomatig, ac eithrio i'r fynedfa i'r Ganolfan Gymorth. 'R oedd yna yn aml 3 set, 2 weithiau, hyd yn oed 3 set o ddrysau trymion i fynd drwyddynt cyn eich bod yn gyfan gwbl y tu fewn i adeilad, ac y mae hyn yn dal i fod yn ymladdfa erchyll i bawb sydd â llai o symudedd a llai o nerth. 'R oedd cyfleusterau toiled yn gyfyngedig, hefyd. Mae gennym ond 3 o doiledau i'r anabl, 'roedd 2 ohonynt yn y Ganolfan Gymorth ac un ar lawr 1af y fangre dyniaethau. Fe fyddech felly'n gorfod gadael eich cyfeillion i fynd i'r Ganolfan Gymorth neu risgio defnyddio'r lifftiau annibynadwy, rhywbeth nad oedd BYTH yn ymarferol.

Mae angen gwerthuso trefniant yr ystafell ddosbarth yn fawr. Mae rhai ystafelloedd dosbarth, yn enwedig yn y mannau technoleg, yn aml yn hollol annerbyniol ar gyfer amodau gweithio boddhaol i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl anabl yn gyffredinol. Yn aml yn rhy uchel i'r disgybl weithio'n gyfforddus neu hyd yn oed fod yn ddigon agos i'r ddesg i weithio arni gyda'u cadair. Y mae hyn unwaith eto'n gostwng hunan-barch ac annibyniaeth yr unigolyn, ac o bosibl yn berygl i iechyd. Fe wnaeth ymweliad diweddar â'm hysgol ategu hyn pan ymwelais â'r ystafell TGCh newydd oedd yn llawn o gyfrifiaduron newydd sbon danlli ac ni allwn fod wedi defnyddio'r un ohonynt oherwydd uchder y desgiau. Mae hyn yn awgrymu y dylid edrych ar gyllido – yn hytrach na chyfrifiaduron newydd y gall ond pobl abl eu cyrff eu defnyddio. Fe ddylent fod yn meddwl am wella'r mynediad cyffredinol i'r ysgol!

'Roedd gwibdeithiau ysgol hefyd yn drafferthus. Fe fyddai'n rhaid cynllunio pob gwibdaith yn ofalus, yn aml yn golygu y byddai'n rhaid i mi fynd ar hyd ffordd wahanol i fy nghyd-ddisgyblion eraill yn y dosbarth, ac er fy mod yn gwerthfawrogi nad oes modd osgoi hyn weithiau, ni fedrech beidio â theimlo eich bod wedi'ch allgau ychydig oddi wrth bawb arall a'r hyn yr oeddynt hwy'n ei brofi.

Thema Un: Fe all oediadau ac anawsterau i gael cadair olwyn iawn effeithio ar fywyd ysgol.

Fe wnaeth ein hadroddiadau, ***"Paid â 'ngwthio i o gwmpas!"*** (Barnardo's a Whizzkidz, 2006) a ***"Gwasanaethau Cadair Olwyn ar gyfer Plant a Phobl Ifanc"*** (Cyswllt Teulu Cymru, 2006), amlygu pwysigrwydd symudedd annibynnol i ddatblygiad cyffredinol plentyn a'r heriau arwyddocaol a wynebir gan deuluoedd o ran cael cyfarpar symudedd priodol. Y mae llawer o blant a phobl ifanc yn wynebu anawsterau ac oediadau wrth aros am asesiad ac i'w cadeiriau olwyn gael eu danfon atynt. Y mae darparu cadair olwyn briodol yn cymorth cyfranogiad a chynhwysiant mewn gweithgareddau addysgol a hamdden prif ffrwd, y mae'n ehangu

gorwelion ac y mae'n rhoi cyfleoedd yn unol ag egwyddorion sefydledig, megis Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Thema sy'n ailgodi dro ar ôl tro yn ein sgyrsiau gyda rhieni yw bod eu plant yn wynebu anawsterau yn yr ysgol oherwydd oediadau neu anawsterau gyda sicrhau'r gadair olwyn briodol.

> *"Fe fesurwyd fy merch ar gyfer cadair olwyn newydd ym mis Tachwedd 2005, fe gyrhaeddodd o'r diwedd ym mis Medi 2006. Fe ddaeth ei hen gadair hi'n rhy fach ac anniogel a thrwy hynny fe effeithiodd ar bob agwedd o fywyd ysgol. Fe ddaeth yr ysgol yn bryderus iawn a'i chael hi'n anodd."*
> Rhiant

Thema Two: Mewn llawer o achosion, nid yw asesu am gadair olwyn yn cymryd gweithgareddau ysgol i ystyriaeth.

O ystyried pwysigrwydd ysgol ym mywyd plentyn neu berson ifanc, yr oedd gennym ddiddordeb mewn canfod a oedd gweithgareddau ysgol yn cael eu cymryd i ystyriaeth pan oeddynt yn cael eu hasesu am eu cadeiriau olwyn. Y mae gan gyfarpar symudedd pediatrig ran bwysig i chwarae, nid yn unig o ran rhoi sylw i angen clinigol, ond hefyd anghenion cymdeithasol ac addysgol y plentyn. Yr oeddem eisiau gweld a ddarperir cyfarpar i blant a phobl ifanc sy'n diwallu'u hanghenion yn yr holl leoliadau y maent yn treulio amser (gyda chyfeiriad at y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, Gweithred Allweddol 5.15). Fe ddywed nifer arwyddocaol o rieni wrthym nad oedd gweithgareddau ysgol yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

> *"Ni ofynnwyd cwestiynau o gwbl am ysgol."*
> Rhiant

> *"Ni thrafodwyd gweithgareddau ysgol, dim ond ei bwysau a'i safle eistedd."*
> Rhiant

Hyd yn oed pan fo rhieni wedi gallu canfod pa fath o gadair olwyn y byddai ar eu plentyn angen er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol, fe erys y rhwystr o a ydynt yn gallu'i chael hi ai peidio. Fe ddywedodd un rhiant wrthym ei bod hi wedi ymofyn cyngor arall ynglŷn ag ba gadair y dylai hi ofyn oherwydd bod ar ei merch angen cymryd rhan mewn gwersi Ymarfer Corff ond yr oedd hi'n dal i fethu â'i chael hi:

> *"Mae ar (fy) mhlentyn angen cadair defnyddiwr bywiog. Cymaint o drafferth cael cadair yr oedd arni angen – fe wnaethom fodloni am lai a derbyn cadair wahanol gan fod yna gymaint o drafferth cael yr un y gwnaeth Cymdeithas Plant mewn Cadair Olwyn argymell."*
> Rhiant

Thema Tri: Ymdopi yn yr Ysgol. A all plant sy'n defnyddio cadair olwyn gymryd rhan yn yr holl ddosbarthiadau a gweithgareddau sy'n berthnasol i gwricwlwm yr ysgol?

Nid ydym wedi derbyn unrhyw adroddiadau bod y defnydd o gadair olwyn wedi rhwystro plant yn gorfforol rhag ymgymryd â darn neilltuol o waith ysgol. Yn wir, y mae yna rai sylwadau cadarnhaol iawn wedi bod:

"Ni chredaf fod yna unrhyw beth amhosibl i wneud o'r gadair olwyn."
Rhiant

"Wedi gallu bod yn gysylltiedig â holl weithgareddau dosbarth. Ramp ym mhob ystafell ddosbarth i alluogi hyn."
Rhiant

Fodd bynnag, er na fyddai defnyddio cadair olwyn mewn gwirionedd yn rhwystro plentyn neu berson ifanc rhag cwblhau'u gwaith ysgol, nid dweud yw hynny na wnaethant wynebu anawsterau.

Y mae yna yn aml broblemau gyda chyfarpar.

"*Mae'n rhaid i fy merch fynd i'r ysgol yn ei chadair olwyn wirioneddol hen, oherwydd bod y byrddau'n rhy fach i'w choesau fynd oddi tanynt…….Pan fydd hi'n mynd yn ei chadair newydd, mae'n rhaid iddi godi'r bwrdd i fyny ac wedyn roi'r bwrdd ar ei choesau, ac am hynny mae hi wedi cael hen lond bol ar hyn."*
Rhiant

"Tra oedd (fy mab) yn yr ysgol, 'roedd hi'n anodd cael hyd i ddesgiau gwaith ac ni ddarparwyd desg briodol."
Rhiant

Fel y gwnaeth Sasha dynnu sylw, y mae yna hefyd anawsterau gyda mynd o un rhan o'r ysgol i ran arall a gorfod gadael gwersi'n gynnar er mwyn cyrraedd ei dosbarth nesaf ar amser, a olygai ei bod hi wedi colli rhannau anhepgor o wersi.

Thema Pedwar: Mynd o Gwmpas yn yr Ysgol. A all plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gyrraedd pob rhan o'r ysgol?

Cymharol ychydig o rieni sydd wedi adrodd bod eu plentyn wedi methu â chyrraedd pob rhan o'r ysgol (adeiladau, meysydd chwarae, ac ati). Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes yna broblemau.

- Y mae mynediad i wahanol rannau o'r ysgol yn aml drwy ddefnyddio lifftiau sy'n gallu torri neu sy'n agored i gael eu fandaleiddio.
- Fe all mynediad i wahanol rannau o'r ysgol ac ystafelloedd dosbarth i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn fod drwy gyfrwng ffordd wahanol i'r ffordd a ddefnyddir gan eraill.
  Fe ddywedodd un rhiant wrthym, pan ofynnwyd iddi a allai'i phlentyn gyrraedd pob rhan o'r ysgol:

  "Fe all, pob adeilad o'r ysgol, ond ni all fynd drwy'r brif fynedfa. Mae'n rhaid (iddi) fynd i mewn drwy ddrws y gegin – sydd yn aml wedi'i flocio gan gynnyrch cegin."
  Rhiant

Y mae gan ysgolion arbennig, sydd fel arfer wedi'u hadeiladu i bwrpas i fod yn addas i gadeiriau olwyn, at ei gilydd fynediad da:

"Nid yw mynediad i'r ysgol yn broblem, gan fod yr ysgol yn ysgol arbennig ar gyfer plant mewn cadeiriau olwyn."
Rhiant

Thema Pump: Mynd o Gwmpas yn yr Ysgol. Beth am weithgareddau eraill yn yr ysgol?

Yr oeddem yn awyddus i ganfod a oedd cadair olwyn plentyn neu berson ifanc wedi effeithio ar eu cyfleoedd i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol gan gynnwys amseroedd chwarae, clybiau ar ôl ysgol, teithiau ysgol a phrydau bwyd ysgol. Fe wnaeth rhai rhieni fwrw sylwadau cadarnhaol iawn:

> *Mae'r bysiau ysgol wedi'u cyfarparu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, fel eu bod yn gallu mynd â'r plant i leoedd. Nid wyf wedi clywed bod yna broblem gydag unrhyw weithgareddau.*
> Rhiant

Fodd bynnag, fe ddywed nifer fawr o rieni wrthym fod eu plentyn wedi profi rhywfaint o anhawster.

- Fe wnaeth amryw grybwyll nad oedd eu plentyn wedi gallu cymryd rhan mewn teithiau ysgol. Y mae rhai rhieni'n deall y pethau ymarferol sy'n gysylltiedig yma ac yn cymryd safbwynt pragmatig:

  > *"Yr unig adeg nad yw ef wedi cyfranogi oedd ar rai teithiau ysgol, e.e., chwarel/castell nad oedd ganddynt yn amlwg fynediad ramp."*
  > Rhiant

  Fe ddywedodd rhieni eraill wrthym nad oedd eu plant wedi gallu mynd ar unrhyw daith ysgol:

  > *"Yn yr ysgol, nid oedd (fy mab) yn gallu mynd ar unrhyw deithiau ysgol o gwbl."*
  > Rhiant

- Yr oedd mynediad i leoedd chwarae hefyd yn broblem i rai plant:
- Y mae yna weithiau broblemau wrth gael at ginio ysgol:
- Y mae yna hefyd achos o blentyn arall na allai fynd i nofio gyda'i hysgol:

  > *"Nofio – nid yw'r pwll lleol yn hygyrch. Cludiant ysgol – o'r bws i'r pwll ddim yn hygyrch i gadair olwyn."*
  > Rhiant

Thema Chwech: Pontio o'r Naill Ysgol i'r Llall

Thema sylweddol iawn i ddod allan fu'r pontio o'r naill ysgol i'r llall, ac y mae'n hail astudiaeth achos yn eglurebu rhai o'r pryderon hyn yn berffaith.

'Rwyf yn ysgrifennu ynglŷn â fy mab yn pontio i Uwchysgol.

Mae'n mab ym Mlwyddyn 6 yn yr ysgol, ac y mae ar hyn o bryd yn mynychu'n hysgol gynradd leol. Mae gan fy mab Barlys yr Ymennydd, mae'n cerdded pellteroedd byr iawn ac fe fydd yn defnyddio cadair olwyn â pheiriant i fynd o

gwmpas yn yr uwchysgol. Dyma'r penbleth wrth benderfynu pa ysgol uwchradd y dylai'n mab ei mynychu:

'Rydym yn byw mewn tref fechan, fe fynychwyd yr uwchysgol leol gan fy ngŵr a minnau, ill dau, ac ar hyn o bryd fe'i mynychir gan fy mab hynaf. Mae yna 60 o blant ym mlwyddyn fy mab yn yr ysgol gynradd ac fe fydd oddeutu 43 ohonynt yn

mynd i'r uwchysgol leol hon. Mae gan ein huwchysgol leol ar hyn o bryd oddeutu 1200 o ddisgyblion; nid yw ar hyn o bryd yn llwyr hygyrch i fy mab. Mae ganddi amrywiaeth o adeiladau, mae gan un ddau lawr ac mae gan un dri llawr, ac nid oes yna lifft. Mae'r mynediad i'r llawr gwaelod yn wastad ac at ei gilydd yn dda, ac y mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau technoleg ar y llawr hwn. Ar hyn o bryd, nid oes yna ddefnyddwyr cadair olwyn yn mynychu'r ysgol. Mae gan yr ysgol blant sydd ag anghenion arbennig eraill ac y mae'n darparu'n dda ar gyfer y plant hyn. Fodd bynnag, un pryder mawr yw'r diffyg profiad a mewnwelediad i ddarparu gofal a hygyrchedd i ddefnyddiwr cadair olwyn, ac nid oes cyfundrefnau'n bodoli ar gyfer Ymarfer Corff, amseroedd cinio, teithiau ysgol, ac yn y blaen. Fe gaiff ei wersi'u hamserlennu ar y llawr gwaelod am y flwyddyn gyntaf, yn bendant.

Mae'r ysgol hygyrch agosaf oddeutu pum munud ar hugain i ffwrdd os ydych yn gyrru cerbyd. Ni fyddai'r un plentyn arall o ysgol gynradd ein mab ei mynychu hi. Fodd bynnag, mae ganddynt eisoes amryw o ddefnyddwyr cadair olwyn a phlant eraill sydd ag amrywiol anableddau meddygol, corfforol ac anableddau dysgu. Mae gan y staff lefel uchel o brofiad gyda phlant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, gyda llawer o gyfundrefnau'n bodoli ar gyfer Ymarfer Corff, amseroedd cinio, anghenion meddygol ac anghenion cyffredinol yn ymwneud â bywyd beunyddiol yn yr ysgol.

Yn ystod adolygiad blynyddol ein mab 'llynedd, fe gawsom ein hannog i ddewis ein huwchysgol leol gan yr awdurdod addysg lleol. Fodd bynnag, 'roedd y staff a fynychodd y cyfarfod o'r uwchysgol leol yn amlwg yn bryderus iawn amdano yn mynd yno. Nid oeddynt yn wreiddiol yn gadarnhaol iawn ac yn sicr yr oeddynt yn awyddus i dynnu sylw at yr holl anawsterau y byddent yn eu hwynebu. Ni wnaethant dynnu sylw at yr holl anawsterau y byddai ef yn eu hwynebu, ond fe wneuthum i!!!

Mae fy mab wedi gofidio'n fawr o orfod gwneud penderfyniad mawr o'r fath ynglŷn â'i addysg ysgol, yn enwedig gan nad ydyw yn wirioneddol yn ymwneud â'i addysg ysgol ond y mynediad iddo. Ar ôl llawer o feddwl a thrafod, fe benderfynodd fy mab fynd am yr ysgol hygyrch, ni allai wynebu bod yn arloeswr unwaith eto yn yr ysgol leol. Fe wnaethom adael y peth am ychydig wythnosau inni gael meddwl o ddifri' amdano, ac ni wnaethom roi'n penderfyniad i'r awdurdod addysg lleol. Yna, fel y gwnaethom drafod rhagor ar bethau, fe ddaeth ychydig o bethau'n fwy eglur, nad oes yna'r un ateb hawdd ac fe allwn ond cefnogi'n mab gyda'i benderfyniad. Ef yw'r un fydd yn gorfod mynychu ysgol ac ymdrin â phethau bob dydd. Fe wnaeth fy mab, felly, newid ei feddwl a phenderfynu y byddai'n mynychu'n huwchysgol leol.

Mae fy mab eisiau mynd i'r ysgol gyda'i gyfeillion da o'r ysgol gynradd. Mae ganddo rwydwaith cefnogaeth da ac y maent yn ei weld yn bendant iawn fel person yn gyntaf ac anaml iawn y byddant yn cyfeirio at ei anabledd. Mae ef wedi

bod yn ddewr iawn, ac yr ydym wedi'i gefnogi yn hyn. 'Rydym wedi hysbysu'r awdurdod addysg lleol ***ei fod ef*** *eisiau mynychu'n huwchysgol leol. Fodd bynnag, ers inni hysbysu'r awdurdod addysg lleol a'r ysgol o'n penderfyniad, 'rydym yn ddedwydd i ddweud bod eu hagweddau wedi newid er gwell. Maent yn awr yn gwthio yn llawer caletach i'r lifftiau gael eu gosod. Mae yna rai mân addasiadau yn cael eu gwneud (gobeithio) yn ystod gwyliau'r haf i ddrysau a rampiau er mwyn gwell hygyrchedd i'r llawr gwaelod. 'Rydym hefyd yn gobeithio mai gan mai'r*

athrawon fydd yn gorfod symud o'r lloriau uchaf i'r lloriau gwaelod i roi'u gwersi y byddant efallai hefyd yn defnyddio unrhyw ddylanwad y gallant i gael gosod y lifftiau cyn gynted â phosibl.

'Rydym yn gwir obeithio na fydd yn rhaid i blant eraill yn y dyfodol wneud y mathau hyn o ddewisiadau wrth ddewis uwchysgolion. Nid yw'n deg rhoi plant 11 mlwydd oed drwy'r straen emosiynol o sylweddoli y bydd arnynt angen oherwydd eu hanabledd wneud dewisiadau am resymau gwahanol i blant eraill. Ni ddylai hygyrchedd fod yn destun. Mae fy mab yn dal i ofidio ychydig bach os ydym yn rhygnu ymlaen ar agweddau negyddol uwchysgol. Fe ŵyr y bydd yn rhaid iddo pan fydd yn dechrau ym mis Medi fod yn aeddfed a synhwyrol iawn ond yn fwy na dim yn amyneddgar iawn gyda'r ysgol. Mae gennym o hyd yr ysgol hygyrch fel cynllun wrth gefn os bydd angen. 'Rydym yn gobeithio na fydd yn rhaid inni'i ddefnyddio ac y bydd yr awdurdod addysg lleol yn sylweddoli'u dyletswydd i blant sydd ag anableddau a gwneud pob ysgol yn hygyrch yn fuan iawn.

Rhiant

Fe ddywedodd amryw o rieni wrthym am broblemau a ddarfu i ddigwydd gyda phontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

- Yn sylfaenol, fe fydd y ffaith bod plentyn neu berson ifanc yn defnyddio cadair olwyn yn aml yn dylanwadu ar ba ysgol y maent yn ei mynychu.
- Fe ddywedwyd wrth y rhieni yn yr astudiaeth achos uchod gan un ysgol uwchradd nad oedd arnynt angen gwybod bod eu mab yn mynd i fynychu tan flwyddyn chwech (h.y. y flwyddyn cyn ei fod i fynd yno). Fodd bynnag, fe ddywed rhieni eraill wrthym y gall addasiadau gymryd hyd at ddwy flynedd.

> *"'Roedd yna 3 lifft grisiau/cadeiriau nad oeddynt yn gweithio er eu bod yn gwybod ei bod hi'n mynd i'r ysgol ddeunaw mis ynghynt."*
> Rhiant

> *"Fe gymrodd hi ddwy flynedd i addasu'r ysgol gynradd ar gyfer cadeiriau olwyn ar ôl i fy mhlentyn ddechrau'r ysgol - fe fydd yr un mis ar ddeg nesaf fwy na thebyg yn hunllef i sicrhau y bydd ei ddewis o ysgol uwchradd leol yn hygyrch - 'rwyf yn amau'n fawr iawn y caiff hyn sylw mewn pryd, er bod yr awdurdod addysg lleol wedi bod yn ymwybodol o ba un oedd ei ysgol uwchradd agosaf."*
> Rhiant

Thema Saith: Cydweddu â Phlant a Phobl Ifanc Eraill

Y mae "*Pam bod pobl ifanc anabl bob tro'n cael eu hystyied olaf*" yn adroddiad diweddar gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007). Y mae'n cydnabod, "*Y mae addysg i bobl ifanc anabl nid ond yn golygu ennill cymwysterau ond hefyd y mae'n golygu cyfarfod â phobl newydd a chreu cyfeillgarwch.*"

Fe ddywed Sasha wrthym sut yr oedd hi yn aml yn canfod ei hun yn methu â mwynhau cwmni'i chyfeillion oherwydd ei hanallu i fynd i amrywiol rannau o adeiladau'r ysgol ac, yn ein hail astudiaeth achos, y mae'r ysgrifennydd yn nodi nad yw'i mab eisiau bod yn "arloeswr".

Yn y bôn, y mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, fel y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eraill, eisiau cydweddu, ennill cyfeillion a bod yn rhan o'r dosbarth. Nid ydynt

eisiau bod yn wahanol, ac eto, y mae'r materion yr ydym wedi'u hamlygu yn eu gwneud i deimlo'n wahanol ac yn cyfrannu i'w gwahanu oddi wrth eu cyfoedion:

- Efallai nad ydynt yn gallu cyrraedd pob rhan o'r ysgol.
- Fe allant ond fod yn gallu cyrraedd rhannau o'r ysgol drwy wahanol ffyrdd.
- Efallai nad ydynt yn gallu ymuno a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis teithiau a gwibdeithiau ysgol.
- Fe all pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd arwain atynt i fynychu gwahanol ysgol i'r cyfeillion y maent eisoes wedi'u hennill.

Er gwaethaf ymdrechion pawb dan sylw, fe all y plentyn neu'r person ifanc yn y gadair olwyn eto i gyd gael eu gwahanu oddi wrth eu cyfeillion.

Casgliad

Y mae hwn yn giplun bychan o brofiadau rhieni o arolwg blaenorol, ac eto, y mae'r darlun sy'n ymddangos yn cyd-fynd â thystiolaeth storïol o bob rhan o Gymru.

- Y mae problemau gydag addasu amgylchedd adeiladau'r ysgol yn dal i arwain at arferion gwahaniaethol megis pan fo plant yn gorfod defnyddio mynediad y gegin i fynd i mewn i'r ysgol.

  "Mae'n rhaid (iddi) fynd y tu allan i adeilad yr ysgol i gyrraedd rhai gwersi, hyd yn oed pan fo'n tywallt y glaw. Mae'n rhaid iddi adael gwersi 10 munud yn gynnar i fynd i'r nesaf."
  Rhiant

- Y mae gan blant anabl a'u teuluoedd ond dewisiadau cyfyngedig pan ddaw hi'n ddewis ysgolion.

  "Mae (fy merch) yn mynychu'i hysgol gyfun leol a oedd hefyd y dewis gorau y gallwn ni ganfod iddi. Fodd bynnag, yr ydym wedi canfod nad yw cynhwysiant yn ei wir ffurf yn bodoli mewn gwirionedd. Nid yw hyn oherwydd diffyg ymdrech ar ein rhan, ar ran staff yr ysgol (at ei gilydd) ond oherwydd prinder mannau/ystafelloedd hygyrch yn/o amgylch yr ysgol."
  Rhiant

- Y mae'r cwestiwn o gynhwysiant cymdeithasol ehangach mewn ysgolion eto i gael sylw llawn, gyda llawer o blant a phobl ifanc anabl yn methu â bwyta cinio ac ymuno yn ystod amseroedd egwyl â'u cyfeillion o'r dosbarth.

  "I mi, fe wneuthum deimlo llawer iawn o wrthodiad cymdeithasol. 'Rwyf yn berson ifanc hyderus sy'n ffynnu ar ryngweithio cymdeithasol ond os oedd y lifft wedi torri, fe fyddai fy nghyfeillion yn aml yn anghofio amdanaf, mae'n ymddangos, a threulio'r rhan fwyaf o'r amseroedd egwyl a chinio i lawr yn y Ganolfan Gymorth."
  Sasha, defnyddiwr cadair olwyn

Y mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn llawer o'r gweithgareddau cymdeithasol sy'n digwydd mewn ysgolion, megis teithiau a chlybiau ar ôl ysgol, hefyd yn gyfyngedig.

"Nid yw'n mynd allan i chwarae. Nid yw'n mynychu clybiau ar ôl ysgol – byth yn cael gwahoddiad."
Rhiant

- Y mae agweddau tuag at gynhwysiant yn amrywio o ysgol i ysgol. Y mae rhai ysgolion yn well nag eraill.

  "Mae'r ysgol hygyrch agosaf oddeutu pum munud ar hugain i ffwrdd os ydych yn gyrru car. ……..Mae gan y staff lefel uchel o brofiad gyda phlant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, gyda llawer o gyfundrefnau'n bodoli ar gyfer Ymarfer Corff, amseroedd cinio, anghenion meddygol ac anghenion cyffredinol yn ymwneud â bywyd beunyddiol yn yr ysgol."
  Rhiant

  "Yn ystod adolygiad blynyddol ein mab 'llynedd, fe gawsom ein hannog i ddewis ein huwchysgol leol gan yr awdurdod addysg lleol. Fodd bynnag, 'roedd y staff a fynychodd y cyfarfod o'r uwchysgol leol yn amlwg yn bryderus iawn amdano yn mynd yno. Nid oeddynt yn wreiddiol yn gadarnhaol iawn ac yn sicr yr oeddynt yn awyddus i dynnu sylw at yr holl anawsterau y byddent yn eu hwynebu. Ni wnaethant dynnu sylw at yr holl anawsterau y byddai ef yn eu hwynebu, ond fe wneuthum i!!!"
  Rhiant

- Fe fyddai darpariaeth gynnar o gadair olwyn briodol yn cynorthwyo i gymorth profiad addysgol plentyn, ond y mae teuluoedd yn wynebu heriau annerbyniol gyda chael y cyfarpar symudedd iawn, ac nid yw asesiad cadair olwyn yn cymryd i ystyriaeth y gweithgareddau amrywiol sy'n rhan o fywyd mewn ysgol brif ffrwd.

  "Ni thrafodwyd defnydd yn yr ysgol."
  Rhiant

"Ysgol Pan Ydych ar Olwynion" a sefydliadau eraill

Fe aethom at amryw o sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a'u teuluoedd ac fe ofynasom iddynt fwrw sylwadaeth ar ein hadroddiad, "Ysgol pan ydych ar olwynion". Yr hyn a ddilyna yw'r ymatebion a dderbyniasom…

Barnardo's Cymru
BELIEVE IN CHILDREN
CREDWCH MEWN PLANT

Barnardo's Cymru yw un o'r mudiadau gwirfoddol mwyaf blaenllaw dros blant sy'n gweithio yng Nghymru. Y mae ganddo fwy na 40 o wasanaethau ledled y wlad, yn gweithio mewn partneriaeth gydag 20 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Y mae'i bortffolio o wasanaethau yn cynnwys ystod eang o ddarpariaeth a gynlluniwyd i gynorthwyo a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc mwyaf diymgeledd ac wedi'u hymyleiddio yng Nghymru. Y mae hyn yn cynnwys saith o wasanaethau a gynlluniwyd yn benodol i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

Ym mis Mehefin 2006, fe gyhoeddodd Barnardo's a Whizz-Kidz adroddiad ar y cyd a amlinellodd brofiadau plant anabl o wasanaethau cadeiriau olwyn yn y DU. Fe groesawyd yr adroddiad, *"Paid â 'ngwthio i o gwmpas!"*, am amlygu'r anawsterau yr oedd llawer o blant anabl a'u teuluoedd yn eu profi wrth gael cadeiriau olwyn priodol a chefnogaeth ddilynol. Yr oedd canfyddiadau adroddiad atodol a gynhyrchwyd gan Cyswllt Teulu ("Gwasanaethau cadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru") yn adlewyrchu'r rhai hynny yn yr

adroddiad drwy'r DU i gyd ac fe gadarnhaodd fod gormod o lawer o blant a phobl ifanc yn derbyn gwasanaeth gwael o ran y ddarpariaeth o gadeiriau olwyn. Fe wnaeth yr adroddiadau amlygu'r effaith arwyddocaol a gawsai darpariaeth wael o gadeiriau olwyn ar gyfyngu ar gyfleoedd bywyd a phrofiadau beunyddiol plant a phobl ifanc anabl, ac ymysg amryw o argymhellion fe alwasant ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflymu'u targedau Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cadeiriau olwyn yn cael eu darparu yn fwy effeithlon a phrydlon. Fe fydd Barnardo's Cymru yn parhau i lobïo am i'r gwelliannau hyn gael eu gwneud.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella'r ddarpariaeth o gadeiriau olwyn ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru, y mae barn defnyddwyr gwasanaethau Barnardo's Cymru wedi cyfrannu i'r adroddiad, "Ysgol pan ydych ar olwynion", ac yr ydym yn llwyr gefnogi ac yn cymeradwyo'i gynnwys a'i ganfyddiadau, fel ei gilydd. Yr ydym yn gobeithio y bydd barn a phrofiadau'r plant a rhieni a amlinellir yn yr adroddiad yn gweithio i amlygu'r anawsterau beunyddiol a wynebir gan ormod o lawer o blant sy'n defnyddio cadair olwyn yn ein hysgolion ac y bydd canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol.

Andy James
Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Polisi
Barnardo's Cymru

Y mae **Plant yng Nghymru** yn croesawu'r adroddiad a ddatblygwyd gan Cyswllt Teulu ac y maent yn llwyr gymeradwyo'r materion a'r pryderon a godir. Y mae o bryder mawr inni fod y materion hyn yn dal heb newid er gwaethaf llawer o drafodaethau a llawer o adroddiadau dros lawer o flynyddoedd. Y mae Plant yng Nghymru wedi cynnal dwy sesiwn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth cadeiriau olwyn, y naill fel paratoad ar gyfer y Gyngres Ryngwladol yn 2002, a'r llall fel rhan o gyfarfod y rhwydwaith personau anabl ieuainc yn 2005. Y mae'r adborth o'r ddau ddigwyddiad yn rhestru'r un hanesion o oediadau, cyfleoedd a gollwyd, ac eithriadau ar gyfer pobl ifanc.

Yr wyf yn wir bryderus bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu gwrthod, i gyfranogi, i gael at addysg yn llawn ac i gymdeithasu ag eraill.

Y mae'r canlynol yn ddetholiad o ddarn o waith a ymgymerwyd yn 2002 yn edrych ar rwystrau i Addysg, yr wyf wedi'u dethol o'r materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â sylwadau ar y ddarpariaeth o gadeiriau olwyn.

Rhwystrau:

- Prinder cludiant hygyrch i fynd i'r ysgol
- Agweddau athrawon
- Diffyg hunan-hyder ym mhobl ifanc anabl
- Tlodi

- Nid yw pobl yn gwrando ar y materion addysgol a gyflwynwyd gerbron gan bobl anabl a'n galw ni'n wirion.
- Datganiadau aneffeithiol
- Bwlio / agweddau cyd-ddisgyblion yn y dosbarth (yn enwedig mewn addysg gynhwysol)
- Prinder cyfleoedd
- Athrawon a rhieni'n ceisio â dweud wrthych pa bynciau i astudio
- Ysgolion nad ydynt yn cynnig cyfleusterau chwaraeon arbennig
- Pobl anabl ifanc yn cael eu categoreiddio fel 'anghenion arbennig'
- Mynediad i adeiladau
- Llyfrau anodd a thrwm

Atebion

- Fe ddylai pob athro gael hyfforddiant priodol a gynhelir gan bobl anabl
- Fe ddylai mudiadau hawliau dynol dalu mwy o sylw i bobl anabl ifanc
- Trosglwyddo profiadau cadarnhaol i eraill
- Sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau
- Cynyddu'r cyllid ar gyfer pobl ifanc anabl ifanc mewn ysgolion
- Annog cynhwysiant pobl anabl mewn ysgolion i rwystro agweddau negyddol cenhedlaeth y dyfodol.

Lynne Hill
Cyfarwyddwr Polisi
Plant yng Nghymru

Family Fund

Y mae **Cronfa'r Teulu** yn elusen gofrestredig sy'n cynorthwyo teuluoedd sydd â phlant sy'n ddifrifol anabl neu'n ddifrifol wael i gael dewisiadau a'r cyfle i fwynhau bywyd cyffredin. Gan gwmpasu'r Deyrnas Gyfunol i gyd, fe'i hariannir gan lywodraethau cenedlaethol Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban, a Chymru.

Fel y sefydliad annibynnol mwyaf sy'n rhoi grantiau sy'n cynorthwyo teuluoedd o'r fath yn y DU, y mae'n dosbarthu tua £27 miliwn y flwyddyn ar ran mwy na 40,000 o blant a phobl ifanc sy'n byw gartref.

Y mae Cronfa'r Teulu hefyd yn cynnal ymchwil ac yn rheoli cronfa ddata enfawr – offer nerthol ar gyfer dylanwadu ar lunwyr polisi ac ymgyrchu dros newid.

Y mae Cronfa'r Teulu yng Nghymru ac yng ngweddill y DU yn aml yn gweithio ochr yn ochr â Cyswllt Teulu ar ymgyrchoedd i wella gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd â phlant sy'n ddifrifol anabl neu'n ddifrifol wael.

Y mae Cronfa'r Teulu yn llwyr gymeradwyo a chefnogi adroddiad rhagorol Cyswllt Teulu, "Ysgol Pan Ydych Ar Olwynion". Y mae'n darparu portread real iawn o'r sefyllfa i gymaint o deuluoedd yng Nghymru ac y mae'n dangos sut y gall annibyniaeth ac integreiddiad gael eu cyfyngu neu'u gwella gan y ddarpariaeth gywir ac amserol o gadeiriau olwyn.

Y mae Cronfa'r Teulu'n cael llawer o ddeisyfiadau am gymorth ariannol gyda chadeiriau olwyn a bygis arbenigol. Yn hanesyddol, o ganlyniad i gyllid oddi wrth lywodraethau'r DU, ni allwn ni fel rheol gynorthwyo gydag eitemau megis cadeiriau olwyn sy'n gyfrifoldeb i asiantaeth statudol. Y mae llywodraethau'n teimlo'u bod wedi darparu am hyn drwy sianeli eraill.

Fe all Cronfa'r Teulu gynorthwyo gyda chyfraniad tuag gost cadair olwyn, ble:

- Y mae'r plentyn wedi'i asesu gan ei Awdurdod Iechyd lleol neu gan Ganolfan Cadeiriau Olwyn y GIG ac y mae ar y teulu angen cymorth ychwanegol sy'n fwy nag a geir gan ddarpariaeth statudol

Neu

- Y mae'r angen am y gadair olwyn neu fygi y tu hwnt i feini prawf yr Awdurdod Iechyd lleol neu Ganolfan Cadeiriau Olwyn y GIG ac y mae'r teulu felly yn methu â chael at gymorth drwy ddarpariaeth statudol.

Enghraifft ddiweddar yng Nghymru oedd deisyfiad am gadair olwyn â pheiriant ar gyfer plentyn pedair oed gyda chrebachiad cyhyrau'r cefn, gan fod y gadair olwyn sydd ganddynt ar gyfer defnydd dan do yn unig. Y mae'r gadair newydd i fod i ddisodli hon. Nid oes yna gynllun talebau cadeiriau olwyn yng Nghymru. Fe wnaeth y teulu wneud cais i amryw o sefydliadau a oedd naill ai'n methu â chynorthwyo neu yr oedd ganddynt restr aros o 18/20 mis. Yr oedd y Gronfa yn gallu darparu cyfraniad o £3800…50% o gost lawn yr eitem ac fe dalwyd £2850 yn rhagor o'n cronfa wirfoddol, ac fe wnaeth Ymddiriedolaeth Jennifer gynorthwyo gyda £1000 yn rhagor. Yr oedd hwn yn ddyfarndal eithriadol yn seiliedig ar y cyllid oedd ar gael ar y pryd, ac y mae yna lawer, lawer yn fwy o ddeisyfiadau nad ydym yn gallu'u diwallu.

Y mae gennym Ymgynghorwyr Cronfa'r Teulu sy'n ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi'u hunain i asesu'u hanghenion ac fe allasant roi cannoedd o enghreifftiau o brofiadau oddi wrth deuluoedd, fel y'i disgrifir yn yr Adroddiad hwn gan Cyswllt Teulu.

Y mae 'Ysgol Pan Ydych ar Olwynion' yn codi llawer o destunau pwysig a beunyddiol real iawn ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn …..y testunau cryfaf, sydd ond yn rhy real, a mwyaf nerthol, yw, fel mor aml, y rhai a ddisgrifir gan bobl ifanc eu hunain ….yn aml yn awr o ystyried y cyfle i brofi addysg prif ffrwd, ond y mae'r profiad hwnnw yn rhy aml yn cael ei gyfyngu gan brinder olwynion sy'n symud.

Fe all olwynion hybu neu chwalu'u hansawdd profiad a chyfle o fewn addysg.

Ann Shercliffe
Cydgysylltydd Gwlad
Cymru
Cronfa'r Teulu

Y mae **Whizz-Kidz** yn elusen genedlaethol a darparwr blaenllaw o gadeiriau olwyn pediatrig a chyfarpar symudedd wedi'i addasu ar gyfer unigolion, hyfforddiant ar sgiliau cadair a chyngor y tu allan i'r GIG. Yr ydym yn gweddnewid cyfleoedd bywyd plentyn anabl drwy gymorth eu gallu i symud o gwmpas yn annibynnol, a rhoi iddynt yr hyder a'r rhyddid i fod yn hwy'u hunain.

Y mae **Whizz-Kidz** yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r angen nad yw wedi'i ddiwallu ymysg plant a phobl ifanc anabl am gyfarpar symudedd hanfodol nad ydynt bob amser yn gallu cael ato drwy'r gwasanaethau statudol.

Y mae **Whizz-Kidz** yn darparu gwasanaethau drwy Gymru a Lloegr i gyd drwy rwydwaith o therapyddion pediatrig. Y mae'r elusen yn cynnal dwy ganolfan symudedd yn Birmingham a Newcastle, ac y mae'n gweithio i ganfod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau iechyd ac addysg lleol ble bynnag y bo'n bosibl.

Addysg a'r Ddarpariaeth o Gyfarpar Symudedd

Y mae'r diffyg yn y ddarpariaeth o wasanaethau cadeiriau olwyn effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl ledled y DU wedi cael ei gofnodi'n helaeth dros lawer o flynyddoedd (McColl 1986; Comisiwn Archwilio, 2000, 2002, Uned Strategaeth y Prif Weinidog, 2005, Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Addysg a Sgiliau 2007).

Y mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant yng Nghymru yn amlinellu targedau uchelgeisiol ar gyfer gwella mynediad at y gwasanaethau symudedd o ansawdd a'r cymorth y mae ar rieni, plant a phobl ifanc angen (5.17), ac eto y mae llawer o deuluoedd yn dal i wynebu oediadau gormodol am gadeiriau olwyn, addasiadau hanfodol ac uwchraddiadau i gyfarpar symudedd fel y mae'u plentyn yn tyfu – neu y maent yn methu â chael at y gadair olwyn y mae arnynt angen er mwyn cefnogi cyfranogiad eu plentyn mewn bywyd addysgol a chymdeithasol.

- Fe all cyfarpar symudedd sy'n diwallu anghenion unigol plentyn weddnewid eu gallu i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd addysgol a hamdden prif ffrwd. Y mae'r gadair olwyn iawn yn cefnogi integreiddio plant anabl gyda'u cyfoedion, a chyflawni'r Saith Amcan Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Y mae plant yn cael eu grymuso i ddatblygu'u sgiliau a'u hyder i gyfranogi yn gymdeithasol ac economaidd wedi iddynt dyfu'n oedolion.
- Heb y modd i symud o gwmpas gydag annibyniaeth, y mae plant yn fwy tueddol o ddibynnu ar eraill, ac fe allant ddatblygu patrwm ymddygiad a adwaenir fel 'diymadferthwch a gaiff ei ddysgu', pan fônt yn mynd yn encilgar ac fe allant fethu â datblygu'r cyneddfau beirniadu a'r hyder i gyflawni'u potensial mewn bywyd.[1]

Argymhellion

Y mae pob person ifanc anabl yn haeddu'r dechreuad iawn mewn bywyd drwy'r ddarpariaeth gynnar o gyfarpar symudedd priodol heb oedi gormodol. Y mae'n rhaid darparu cyfarpar

[1] Yr Athro David Hall (Llywydd, Coleg Brenhinol Pediatreg 2000-2003)

symudedd ar sail asesiad cyflawn o anghenion plentyn ym mhob man y maent yn treulio amser (gan gynnwys sefyllfaoedd hamdden ac addysgol) gan ddefnyddio dull amlasiantaethol, ymatebol tuag at gyflawni anghenion unigol plentyn sy'n tyfu a'i anghenion sy'n newid.

Y mae'n rhaid gwneud cynnydd yn erbyn safonau gofynnol allweddol a gynhwysir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yng Nghymru drwy ddarparu:

- asesiad gwirioneddol gyfannol o angen (2.8);
- gweithio ar y cyd rhwng y gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysg i gymorth cyfranogiad mewn addysg (5.28);
- cynllun iechyd ysgol i 'ganfod anghenion y plentyn a sut y cânt eu diwallu mewn sefyllfa ysgol' (5.29).

Fe fyddai Whizz-Kidz yn ychwanegol yn cymeradwyo:

1. Mwy o gydweithredu ledled y gwasanaethau cadeiriau olwyn ac addysg a'r sector gwirfoddol, gan adeiladu ar enghreifftiau o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Fe fyddai is-glinigau rheolaidd mewn ysgolion yn cynnig hyfforddiant sgiliau cadair olwyn i staff, ac yn darparu cyfle i gynnal adolygiad o anghenion symudedd plentyn ac addasrwydd adeiladau'r ysgol.

2. Cael pobl ifanc i ymwneud mwy â chynllunio gwasanaethau - er enghraifft, drwy sefydlu grŵp defnyddwyr i bersonau ieuainc i sicrhau bod gwasanaethau'n ymatebol i anghenion pobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn ym mhob agwedd o'u bywydau.

Stephanie Bell
Swyddog Seneddol
Whizz-Kidz